

CANLLAW CHUCK-A-PUCK **CROESO CAERDYDD I...**

GWESTY'R ANGEL



Mae Gwesty'r Angel yn eiddo Fictoraidd coeth a mawreddog gyda 102 o ystafelloedd gwely en-suite traddodiadol a 9 ystafell gyfarfod a digwyddiadau. Gyda nodweddion trawiadol y cyfnod a lleoliad canolog heb ei ail, y gwesty yw'r lleoliad canolog perffaith ar gyfer eich digwyddiad neu ddihangfa nesaf.

Mae wedi'i leoli yng Nghanol y Ddinas gyferbyn â Chastell Caerdydd, ac yn daith gerdded fer o Stadiwm Principality. Mae caffis, bariau ac arcedau Fictoraidd bywiog yn ogystal â gerddi gwyrdd Parc Bute yn amgylchynu'r gwesty.

YSTAFELLOEDD

Mae ein heiddo hardd a hanesyddol yn gartref i 102 o ystafelloedd en-suite, ac mae i bob un asiad o ddodrefn clasurol a nodweddion gwreiddiol y cyfnod. Mae ein hystafelloedd yng Ngwesty'r Angel yn cynnal traddodiadau a chyfaredd y gwesty eiconig gyda nifer ohonynt yn mwynhau golygfeydd dros Gastell Caerdydd, Parc Bute neu Stadiwm Principality. Pa bynnag ystafell a archebwch, gallwch fwynhau Wi-Fi a Theledu Freeview am ddim wrth i chi wneud eich hun yn gysurus.

BAR A BWYTY'R CASTELL

Gall gwesteion a phobl leol alw draw ym Mwyty'r Castell i fwynhau bwydlen o brydau tymhorol sy'n newid yn gyson, wedi'u creu gan ddefnyddio cynhwysion o ansawdd uchel, sy'n amlygu'r cynnyrch lleol gorau. Hefyd gall ciniawyr fwynhau ein detholiad o winoedd gwych a fewnforir yn unswydd ar ein cyfer i ategu eu cinio, te prynhawn neu swper yn berffaith.

CYFARFODYDD CLASUROL

Wedi'i leoli o fewn taith gerdded fer o Stadiwm Principality Caerdydd, mae ffasâd clasurol goeth Gwesty'r Angel yn dod ag awyrgylch mawreddog i unrhyw gyfarfod neu ddigwyddiad. Mae ein tîm ymroddgar yn fedrus ac yn brofiadol a byddant yn sicrhau bod pob elfen yn rhedeg yn llyfn a llwyddiannus.

COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!

*The
Angel*

Dysgwch fwy yn croesocaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

